HG 35. 5. 190

# MYFYRDOD

AR

FARWOLAETH

# Mr. OWEN THOMAS,

SIOPWR;

AELOD O EGLWYS Y BEDYDDWYR

YN

MACHYNLLETH;

YR HWN

A hunodd yn yr Arglwydd y Dydd cyntaf o Ebrill, 1817.

---

*Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.*
DIAR. x. 7.

---

*ABERYSTWYTH,*

Argraffwyd gan Samuel Williams, yn Heol y Bont.

---

1817.

LW 3790

# MYFYRDOD, &c.

I.

*Gofyniad.*

GYFAILL tirion, p'le mae'th drigfod,
Ar ol diweddu'th bererindod?
Pa fath fangre hardd 'rwyt ynddi?
Pa ryw le y'ngwlád goleuni?

*Atteb.*

Mae pob lle, a phob sefyllfa,
Yn hardd a gwynfydedig yma,
Heb gûr na phoen,
Yn gwel'd yr Oen,
A'i ganmol heb dewi;
Mae'r holl dorf sydd wedi eu golchi,
Ddaeth o'r cystudd mawr i fynu.

II.

*Gofyniad.*

A oes rhyw ragoriaeth yna,
Rhwng y saint a'r seraph pena'?
Ac a oes rhagoriaeth graddau,
Yna'n bod y'mhlith y seintiau?
A oes rhai yn nês i'r orsedd,
Yn uwch nac ereill mewn anrhydedd?
Mae rhagor mawr
Ar y llawr,

Rhwng donian rhai a'u gilydd,
Mewn grás a chymhwysiadau hylwydd,
A llafur maith y'ngwaith yr Arglwydd.

III.

*Atteb.*

Dedwydd yw pob un o'r dyrfa,
Trwy boen a brynwyd ar Galfaria,
Y naill a'r llall sydd wrthddrych dedwydd,
Trag'wyddol gariad fel eu gilydd;
Mewn un ffynnon hwynt a olchwyd,
Trwy'r un Ysbryd fe'u sancteiddiwyd;
Y dyrfa lân,
Sydd oll yn dân,
A'u cân yn ddiddarfod
Am y gwaed, ac am y cymmod,
Arfaeth, cynghor, a chyfammod.

IV.

Ni wyr, ni wêl, un rheswm dynol,
Hardd drigfanau'r byd trag'wyddol,
Ffydd yn unig trwy'r wybrenau,
A wel y wlâd sydd berffaith olau;
Daw a'r Oen yw eu goleuni,
A Phriod Seion sy'n teyrnasu,
Hithau'n llon,
Ger ei fron,
Pob tòn, a phob gofid,
Wedi darfod, wedi eu symmud
Oddi wrthi byth yn nhîr y bywyd.

V.

*Sylwad.*

Pererin syml fuost yma,
Hardd a diwyd yn dy yrfa,
Dilynaist ôl y cwmmwl tystion,
Ne's cyrhaeddyd glan yr afon;

Yno cefaist waredigaeth,
Oddiwrth gorph yr hên farwolaeth;
Diengaist di,
I Salem fry,
I blith y llu sanctaidd,
Yno 'r wyt ti mewn gorfoledd,
Yn gwel'd yr un sydd ar yr orsedd.

VI.

Am iddo 'th garu di yn gynta',
Ef a geraist dithau yma,
Ei degwch a ddatguddiodd i ti,
Ne's dwyn dy galon i'w ei garu;
Dangosodd hefyd ei drysorau,
Pob grâs a dawn ag oedd yn eisiau,
I'w rhoddi 'n rhâd,
Trwy rîn y gwa'd,
I bawb o'r hâd brenhinol;
Nerth a chymhorth cyfamserol,
Y balmwydd hardd, a'r goron nefol.

VII.

Chwilio 'r oeddit lyfrau 'r doethion,
Mawr ac enwog ddifinyddion,
Pool, Gill, Fuller, Burkit, Henry,
Flavel, Goodwin, Brown, a Hervy;
Ond yn awr 'does arnat eisiau,
Goleu neb ar ddwyfol eiriau;
Esponiad gwîr,
A goleu clîr,
Ar eiriau pûr Jehofah,
Heb na llen, na 'r gorchudd lleia',
Ar bethau dyfnion, weli di yna.

VIII.

Gadewaist fyd o demptasiynau,
Byd o drallod a chystuddiau;

Yn lle'r groes, ti gefaist goron,
A gwlêdd ddidrai o bob cysuron;
Yna'r wyt yn cymdeithasu,
A'r Patriarchiaid a'r Prophwydi,
A'r lluoedd glân,
Trwy ddw'r a thân,
A aeth i'r Ganaan uchod,
Yn eglwys bur, heb boen na thrallod,
Yn gorfoleddu yn ei Phriod.

IX.

Ffarwel, frawd, dros ennyd fechan,
Er nad yw fy ffydd ond egwan,
Hyderu 'r wyf y câf dy weled,
Wedi 'm dwyn o bob caethiwed;
Colled ga'dd dy deulu 'n ddiau,
A cholled sydd i'r achos gorau,
Ffyddlon iawn,
Foreu a 'nawn,
Yn ol dy ddawn yma,
Achos Duw, oedd atat nesa',
A Seion dy lawenydd pena'.

X.

Yn y byd mae etto luoedd,
Yn tynu 'n erbyn garw wyntoedd,
Y groes yn drom, a hwythau 'n weiniaid,
Mewn llafur blin, a llawer lluddaid;
Ofni gan eu mawr dywyllwch,
Eu bod heb ffydd ac edifeirwch;
Er hyn heb wa'd,
Tua thir eu gwlâd,
Gan gario'r hâd sanctaidd,
Tynu maent tua'r nefol annedd,
Yno i fedi mewn gorfoledd.

XI.

A glywch chwi 'r llef sy' uwchben yr eglwys,
Fel sŵn taran gref---yn rhoi gwŷs,
' I lawr, i lawr---mewn edifeirwch,
' Mewn galar dwys---a dwyfol dristwch,
' Ac onid e'---mewn barnedigaeth,
' Symudir dy ganhwyllbren ymaith,
' I'w roddi i rai
' Yn ddilai,
' A ddug bereiddiach ffrwythau,
' Ac oni cheisi Dduw dy dadau,
' Y fwyall roddir ar dy wreiddiau.'

XII.

Gair a ddaeth i'm clustiau heddyw,
Fod *brawd arall wedi marw*,
Yn yr eglwys, bu flynyddau,
Dan ei groes ac mewn cystuddiau,
Ond mae 'n debyg fod ei drallod
A'i ofidiau wedi darfod;
Ffyddlon fu,
Yn y tŷ,
A'i gri am gael gwirionedd;
Pridd i'r pridd a ro'w'd i orwedd,
A'i lwch i'r lan a ddaw heb lygredd.

XIII.

Seion lesg, na ddigalona,
Er rhoi 'n y pridd dy aelodau pena',
Dy feibion fydd yn lle dy dadau,
I ddwyn yr arch yn llawen adrau,
Efengyl hêdd ledana 'i haden,
Dros Ogledd, De', Gorllewin, Dwyren;
Dan aden hon,
Bydd lluoedd llon,

Yn d'od i gyson ganu,
Iuddewon, Indiaid, di-rifedi,
Glôd a mawl i'r Brenin Iesu.

XIV.

Pob peth oedd hyspys gan yr Arglwydd,
Cyn llunio lloer, na môr, na mynydd,
Fe alwodd bob-peth, ac a'u canfu,
Cyn eu dwyn o'r dim i fynu;
Nid oes gerub yn y nefoedd,
Na seraph pùr, er maint y lluoedd,
Nac angel glân,
Yn seinio cân,
Na mawr na mân greaduriaid,
Heb i'r cyfan gael ei ystyried,
Berthynai iddynt---a'i rag-weled.

XV.

Rhyfedd oedd y rhâd gyfammod,
A luniaethwyd gan y Drindod,
A rhyfedd gariad y Jehofah,
At fyrddiynau o hîl Adda;
Fe edrychodd iddo 'i hunan,
Am achos iddo lifo allan,
Yn ffrydiau byw,
Grisialaidd gwiw,
At ddynol ryw---etholwyd,
A'r rhei'ny dan eu rhîf---a brynwyd,
Ac mewn arfaeth---ogoneddwyd.

J. C.

DIWEDD.

*Aberystwyth, Argraffwyd gan S. Williams.*